

Eich Stori, Ein Hanes

Pecyn adnoddau Uwchradd

Mae'r pecyn hwn yn ategu dau fideo yn y gyfres Eich Stori, Ein Hanes gan ganolbwyntio ar ddeddfwriaeth ar gyfer pobl ag anabledd.



Beth sydd yn y pecyn?

Mae'r pecyn hwn yn gynnwys gwybodaeth gefndirol a chwestiynau i ddatblygu sut mae myfyrwyr yn meddwl am gydraddoldeb a deddfwriaeth.

Mae'n cynnwys:

- Dolenni i ddau fideo
- Cwestiynau i'w hystyried ac i annog sgwrs yn yr ystafell ddosbarth
- Rhestr termau deddfwriaeth allweddol

Gwylwch storïau Nancy ac Adi

Yn y fideos hyn, mae myfyrwyr yn clywed stori Nancy ynghylch sut y newidiodd ei bywyd ar ôl cael ei choes wedi'i thorri i ffwrdd, a stori Adi fel unigolyn â nam ar ei golwg.

Mae'r fideos yn edrych ar newidiadau deddfwriaethol sydd nawr yn ffurfio rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Roedd y deddfwriaeth hon yn lle Deddfau pwysig a oedd wedi helpu i newid bywydau llawer o bobl ag anabledd er gwell: Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 a Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd



Cliciwch i wyllo: [Stori Adi](#)

Cliciwch i wyllo: [Stori Nancy](#)

Cwestiynau

Ar ôl gwyllo'r fideos ystyriwch y cwestiynau canlynol.

- Beth rydym yn ei feddwl pan fyddwn yn dweud bod 'anabledd' gan rywun? Dysgwch beth yw [diffiniad anabledd](#) o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ar ddiwedd y ddogfen hon.
- Mae anabledd yn un o naw nodwedd warchoddedig sydd wedi'i gynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Pa rai yw'r lleill? [Dysgwch pa rai ydynt yma](#).
- Beth yw eich hawliau os oes gennych anabledd? [Dysgwch fwy yma](#).
- Pam ei bod yn bod yn bwysig cael deddfwriaeth sy'n diffinio anabledd a'r hawliau sydd gan bobl ag anableddau?
- Gall ein hamgylchedd a wnaed gan ddyn greu rhwystrau i bobl ag anableddau. Sut rydym/ydyn ni'n gallu gwneud newidiadau yn ein manau agored i sicrhau bod pawb yn cael eu cynnwys?
- Nod Deddf Cydraddoldeb 2010 yw diogelu pobl ag anabledd, yn debyg i Nancy ac Adi rhag gwahaniaethu. Pa fathau o wahaniaethu ydych chi'n gallu meddwl amdanynt? Faint mwy rydych yn meddwl ei bod yn bosibl ei wneud i sicrhau bod cyfleoedd cyfartal gan bawb?

Stori Nancy:

- Mae Nancy'n disgrifio ei phrofiad o wraig yn camu drosti yn y pwll nofio. Sut oedd hynny'n gwneud i Nancy deimlo? Beth fyddech chi wedi'i wneud?
- Pan ddysgodd Nancy am Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970, sut gwnaeth hyn iddi deimlo? Sut oedd wedi caniatáu iddi 'ddilyn ei breuddwydion'?

Stori Adi:

- Dywedodd y cyfwelydd yn stori Adi na fyddai wedi gwahodd Adi 'pe byddai'n gwybod ei bod yn ddall'. Oedd hyn yn wahaniaethu? Pam rydych yn meddwl hynny?
- Sut oedd Adi wedi defnyddio deddfwriaeth i ymateb i'r driniaeth a dderbyniodd yn y cyfweiliad?

Rhestr termau'r ddeddfwriaeth

Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970	<p>Roedd y Ddeddf hon yn cynnwys gosod dyletswydd benodol ar awdurdodau lleol i ddarparu cymorth ar gyfer oedolion a phlant anabl, gan gynnwys rhoi cymorth i addasu cartref; yn ogystal â sicrhau bod adeiladau cyhoeddus megis ysgolion yn hygyrch. Dewch o hyd i fwy o fanylion a diweddariadau am y gyfraith hon yma.</p>
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995	<p>Mae cysyniadau craidd yn y Ddeddf hon yn cynnwys diogelu yn erbyn "triniaeth lai ffafriol" sy'n ymwneud ag anabledd unigolyn a methu â gwneud "addasiad rhesymol" (yn y gweithle neu gyda darparwr gwasanaeth) i ateb gofynion unigolyn ag anabledd. Byddai'r "addasiadau rhesymol" hyn yn cynnwys pethau fel gosod esgynfeydd mewn siopau neu sicrhau bod systemau dolen clyw ar gael mewn prifysgolion. Dewch o hyd i fwy o wybodaeth yma: Diddymwyd y Ddeddf a chafwyd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei lle, ac eithrio yng Ngogledd Iwerddon lle mae'r Ddeddf yn parhau mewn grym.</p>
Deddf Cydraddoldeb 2010	<p>Casglodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ystod o ddeddfwriaeth oedd yn bodoli at ei gilydd ar gyfer yr hyn a ddisgrifir fel naw 'nodwedd warchoddedig' gan gynnwys 'anabledd'. O dan y Ddeddf, fel unigolyn anabl, mae hawliau gennych i'ch diogelu rhag gwahaniaethu. Mae'r hawliau hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o feysydd, gan gynnwys: cyflogaeth, addysg a delio â'r heddlu. Rydych yn cael eich ystyried yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 os oes gennych nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith 'sylweddol' a 'thymor hir' ar eich gallu i wneud gweithgareddau pob dydd arferol. Gellir dod o hyd i fwy o fanylion ynghylch beth yw anabledd yma. ac ar nodweddion gwarchoddedig – Anableddy yma.</p>
Deddf Hygyrchedd Ewropeaidd 2019	<p>Mae'r Ddeddf Hygyrchedd Ewropeaidd yn cynnwys deddfwriaeth ledled Ewrop i wella a safoni hygyrchedd cynnyrch a gwasanaethau, yn arbennig i sicrhau bod offer a gwybodaeth ddigidol yn hygyrch i bawb. Gosododd y DU ei gofynion yn eu lle yn 2019 a 2020 cyn gadael yr UE. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yma.</p>

MYNNWCH YSBRYDOLIAETH!

Gall eich myfyrwyr ddysgu mwy am bobl ag anableddau sy'n arwain newid heddiw ar y [Power 100 list gan Shaw Trust](#). Mae'r rhestr flynyddol hon o bobl ddylanwadol yn amrywio o fusnes i chwaraeon ac adloniant, ac yn cynnwys y rhai sy'n parhau i wella hawliau i bobl ag anableddau.

shaw trust

Gyda diolch i Shaw Trust
am eu cefnogaeth yn
cynhyrchu'r
adnodd hwn.